WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2251A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Mike Jones, Helen Williams, Carwyn Rees, Justine Morgan a Colin Davies dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig 7

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyllidebu blynyddol byrdymor a chynllunio ariannol tymor canolig, y ceir cysylltiad clir rhyngddynt a rhoi cymorth i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol 7

Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt 8

Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae arbedion wedi'u cynllunio wedi cael eu cyflawni gan mwyaf 10

Mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 11

Mae'r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor 12

Mae'r Cyngor yn benthyca mewn modd darbodus 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu 'dangosyddion' ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â'r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â'r Cyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae'n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £483m**



**Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 9,943 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1,138m**

Ffynhonnell: cyllideb refeniw 2019-20, datganiad cyfrifon 2018-19 (niferoedd cyflogeion ac asedau sefydlog)

3 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2019-20.




Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2019-20

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan canfuom fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyllidebu blynyddol byrdymor a chynllunio ariannol tymor canolig, y ceir cysylltiad clir rhyngddynt a rhoi cymorth i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol;
- mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt;
- mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae arbedion wedi'u cynllunio wedi cael eu cyflawni gan mwyaf;
- mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy;

- mae’r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor, ac
- mae’r Cyngor yn benthyca mewn modd darbodus.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig

### Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyllidebu blynyddol byrdymor a chynllunio ariannol tymor canolig, y ceir cysylltiad clir rhyngddynt a rhoi cymorth i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom fod y Cyngor yn canolbwyntio ar gyllidebu blynyddol byrdymor a chynllunio ariannol tymor canolig, y ceir cysylltiad clir rhyngddynt a rhoi cymorth i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor yn nodi bwlch o ran cyllid a ragamcanir dros y blynyddoedd nesaf, sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol (Arddangosyn 3). Un o'r tybiaethau yw y bydd cyllid refeniw o'r Grant Cynnal Refeniw yn aros yn ddigyfnewid o un flwyddyn i'r llall. Er bod y CATC wedi nodi bwlch o ran cyllid o £15.59 miliwn ar gyfer 2020-21, mae'r bwlch hwn wedi cael ei leihau'n sylweddol gan y ffigwr setliad mwy ffafriol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.
- mae'r Cyngor yn mynd ati'n flynyddol i ddiwygio'i gynllun ariannol a ddefnyddir i helpu i oleuo'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb refeniw. Mae proses y gyllideb yn amcangyfrif effaith newidiadau yn y galw a/neu newidiadau demograffig, newid deddfwriaethol neu reoleiddiol, effaith grymoedd allanol (a phrisiau) y farchnad a goblygiadau ariannol penderfyniadau polisi a chynllunio gwasanaethau a wneir gan y Cyngor.
- mae'r gyllideb flynyddol yn rhoi cyfrif am unrhyw fwlch yn y gyllideb er mwyn paru'r adnoddau sydd ar gael â'r adnoddau y mae eu hangen, ac yn nodi maint yr arbedion effeithlonrwydd y bwriedir eu cyflawni.; Dros y

blynyddoedd diwethaf mae alldro'r gyllideb wedi cyfateb â'r adnoddau a oedd ar gael gyda thanwariannau/gorwariannau bychain yn unig.

- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio rhai o'i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae wedi gwneud hynny ar sail wedi'i gynllunio, ac yn unol â diben datganedig y cronfeydd wrth gefn hyn, yn hytrach na dibynnu o gwbl ar gronfeydd wrth gefn i gwrdd ag unrhyw orwariannau refeniw heb eu cynllunio.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid a ragamcanir y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r ddwy flynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau

gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y cyngor hanes da o reolaeth ariannol ac mae wedi bod yn darparu ei wasanaethau'n gyson o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt er ei bod yn anorfod bod mân orwariannau a thanwariannau mewn rhai meysydd.
- cyflawnodd y Cyngor danwariant ar ei gyllideb refeniw o £0.386 yn 2017-18 a gorwariant bach o £0.222 miliwn yn 2018-19.
- roedd adroddiad monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Mis 6 yn rhagamcanu gorwariant o £1.761 miliwn ar gyfer 2019-20. Nid yw'r gorwariant hwn yn ystyried cyllid untro ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â pharatoadau ar gyfer y gaeaf a mesurau gofal brys newydd ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, y mae'r Cyngor yn gweithio i'w sicrhau.

## Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan dros y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma ar 30 Medi 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £458.940m | £458.554 | Gwarged o £0.386m | Gwarged 0.08% |
| 2018-19 | £471.60m | £472.962m | Gorwariant o £0.222m | Gorwariant o 0.04% |
| 2019-20 | £483.469m | £485.230m | Gorwariant rhagamcanol o £1.761m | Gorwariant rhagamacanol o 0.36% |

Ffynhonnell: adroddiadau alldro refeniw (2017-18 a 2018-19), Adroddiad ar berfformiad y Cyngor 21 Tachwedd 2019 (2019-20)

## Mae’r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae arbedion wedi’u cynllunio wedi cael eu cyflawni gan mwyaf

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae’r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy’n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae’n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu’r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau’r Cyngor, neu o ddatrysiadau ‘byrdymor’ nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fod y Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bod arbedion wedi’u cynllunio wedi cael eu cyflawni gan mwyaf. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni yn erbyn cyllideb fantoledig, sy’n cynnwys ei gynlluniau arbedion wedi’u costio.
- caiff arbedion eu hadnabod trwy broses o adolygu’r ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau a chaiff cynigion eu paratoi yng nghyd-destun amcanion corfforaethol y Cyngor. Fe ymgynghorir â’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch y rhain ac mae pwyllgorau perthnasol yn craffu arnynt.
- mae’r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol ers 2015-16 ac, er enghraifft, mae nifer y cyflogeion wedi gostwng o 10,990 i 9,943 ar ddiwedd mis Mawrth 2019.
- gosododd y Cyngor darged arbedion o £8.572 miliwn yn 2018-19 a £9.617 miliwn yn 2017-18. Gwneir penderfyniadau ynghylch arbedion wedi’u cynllunio a’u costio’n llawn i gyrraedd y targedau ac yna cânt eu cynnwys yn y gyllideb ar ddechrau’r flwyddyn a’u monitro trwy broses monitro’r gyllideb. O ganlyniad, nid yw’r Cyngor yn monitro’r modd y cyflawnir cynlluniau arbedion unigol gan eu bod yn rhan o’r gyllideb ar y cyfan, ac yn rhan o adroddiadau monitro’r gyllideb ar y cyfan a gaiff eu llunio’n fisol.
- ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2019-20, fe ymdriniwyd â tharged arbedion o £12.903 ac mae wedi’i gynnwys yn y cyllidebau. Fel a adroddwyd uchod o ran y sefyllfa ym mis 6, roedd gorwariant rhagamcanol o £1.761 miliwn, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cyllid ychwanegol i gwrdd

â hwn a rheoli gwariant i gyfrannu at gysoni'r sefyllfa ariannol yn fwy â'r gyllideb.

## Mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.


### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- fe ostyngodd balans cronfeydd wrth gefn refeniw y Cyngor o £74.8 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2018, i £51.6 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2019 o ganlyniad i ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.
- o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd gwerth cyfanredol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £51.6 miliwn yn gyfwerth â balans Cronfa Gyffredinol o £10.5 miliwn, ynghyd â £41.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn refeniw wedi'u clustnodi. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy hyn yn cynnwys balansau ysgolion a chyfalaf ac maent yn 10.94% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2018-19 (gweler Arddangosyn 5).

### Arddangosyn 5: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| **£471.6m** | **£51.6m** | **11%** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: datganiad o gyfrifon 2018-19

## Mae'r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod y Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae incwm o'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am oddeutu 17% o gyllid y Cyngor ar y cyfan ac mae'r Cyngor wedi bod yn effeithiol o ran casglu incwm y dreth gyngor sy'n ddyledus iddo. Roedd y gyfradd adennill ar gyfer 2018-19 yn 97.2%, yn unol â'r gyfradd adennill gyfartalog ledled Cymru, sef 97.3%.

### Arddangosyn 6: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£105,527m** (97.2%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£108,546m**

Ffynhonnell: cyfraddau casglu'r dreth gyngor Stats Cymru 2018-19

## Mae'r Cyngor yn benthyca mewn modd darbodus

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Mae’r Cyngor yn benthyca mewn modd darbodus, gan gydymffurfio â dangosyddion darbodus. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw’r Cyngor yn benthyca i ariannu unrhyw weithgareddau masnachol; defnyddir benthyciadau at ddibenion buddsoddi cyfalaf.
- mae’r Cyngor yn defnyddio adnoddau mewnol cyn benthyca arian yn allanol.
- roedd cyfanswm y lefel fenthyca’n £333 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Roedd y benthyciadau ar 31 Mawrth 2018 yn £273 miliwn. Mae benthyciadau’n amrywio oherwydd llif arian a chyllido prosiectau cyfalaf yn bennaf. Roedd gofynion benthyca’n £44 miliwn ar gyfer 2019-20.
- roedd costau cyllido cyfalaf y Cyngor yn £19.947 miliwn o’i wariant refeniw net yn 2018-19, a oedd yn 4.2% o gyfanswm y gyllideb refeniw. Ar gyfer 2019-20, rhagwelir y bydd y costau hyn yn gostwng i £18.917 miliwn sy’n cynrychioli 3.9% o gyfanswm cyllideb refeniw 2019-20.
- yn ogystal â benthyca, mae’r Cyngor hefyd yn buddsoddi arian dros ben i greu incwm buddsoddi ychwanegol. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau o £30.583 miliwn a oedd yn cynnwys buddsoddiadau byrdymor a hirdymor.


## Arddangosyn 7: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae’r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae’r Cyngor wedi’i fenthyca, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net.



**£333m**

Cyfanswm yr arian a fenthyciwyd ar 31 Mawrth 2019



**4.2%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o’r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: datganiad cyfrifon 2018-19 a’r gyllideb Awdurdod Cyfan yn ôl Llyfr y Gyllideb 2019-20

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru